

DOLEN Y TAB 95

25–26 Chwefror 2022

Bore Sul 27 Chwefror am 11

Yng nghwmni Geraint Wyn, Nia Williams a Sian Elin wrth yr organ.

Caiff yr oedfa ei ffrydio'n 'fyw' ar dudalen *Facebook* y capel a bydd modd gwyllo recordiad yn ddiweddarach naill ai ar *Facebook* neu ar *YouTube*.

Cofiwch gofrestru sedd(i) erbyn 6 nos Wener.

YR OEDFAON NESAF

Mawrth

- 6 Iwan Rowlands a Ceri Anwen (Cymun)
- 13 Aled Edwards a Bethan Guilfoyle
- 20 Rowland a Marian Wynne
- 27 Gethin Rhys a Huw Roberts

Hefyd ddydd Sul 27 Chwefror

12:00 Oedfa Radio Cymru

Gwasanaeth dan ofal Jim Clarke, Llanfair-pwll.

12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

19.00 – 20.00 S4C Dechrau Canu Dechrau Canmol – Gŵyl Ddewi

Ymunwch yr wythnos hon i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi yn Llundain. Bydd Huw Edwards yn clywed hanes rhyfeddol y Cymry alltud a chwrdd â rhai o'r bobl sy'n dal i gynnal ac arddel eu Cymreictod ym mhrifddinas Lloegr heddiw.

E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru

Rhestr Flodau

Gair i'ch atgoffa bod y rhestr flodau am y flwyddyn 2022 wedi ei gosod yn ei lle arferol ar yr hysbysfwrdd yng nghyntedd y capel. Mae croeso i chi dorri eich enw ar gyfer Sul sy'n gyfleus. Ar hyn o bryd, mae nifer fawr o Suliau gwag y medrwyd ddewis o'u plith.

Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd nos Fawrth 8 Mawrth. Os hoffech godi unrhyw fater i'w drafod, cysylltwch â'r Ysgrifennydd erbyn nos Lun 7 Mawrth naill ai drwy ffonio 01443 225205 neu e-bost i gehpengwern@yahoo.co.uk neu neges testun 07710 237327.

Gwellhad Buan

Estynnwn ein dymuniadau gorau i John Edmunds, Penywaun sydd ar hyn o bryd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Cwm Rhondda, Llwynypia a hefyd i Eirian Rowlands, Pentre'r Eglwys sy'n disgwyl derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Llantrisant cyn diwedd yr wythnos. Brysiwch wella ill dau.

Bedydd

Cafwyd achlysur hapus yn y Tabernacl bnawn Sadwrn 19 Chwefror pan fedyddiwyd Matthew Wyn, mab Dylan a Louise Evans ac ŵyr bach Edwyn a Gaynor Evans, Ton-teg a Paul a Rita Allington, Caerffili. Gweinyddwyd y bedydd gan Rhiannon Humphreys mewn seremoni urddasol ac agos-atoch, o flaen cynulleidfia o 30 o aelodau'r teulu a ffrindiau, ac aethant ymlaen i ddathlu ymhellach gyda te parti yn y Ganolfan. Pob bendith i'r teulu.

BANC BWYD

Erbyn hyn, mae'r Tabernacl yn cefnogi dau fanc bwyd lleol. Mae modd cyfrannu arian drwy drosglwyddiad banc neu siec, a bydd yr arian yn cael ei rannu rhwng Banc Bwyd Taf Elái, sydd bob amser yn barod i helpu unigolion anghenus a banciau bwyd llai pan fo angen, a Banc Bwyd Salem, sy'n diwallu angen mawr yn lleol.

Mae casgliad bwyd ar gyfer Banc Bwyd Salem hefyd, a gellir dod â chyfraniadau bwyd i'r oedfa ar fore Sul, neu rhwng 10 a 12 bob bore lau neu fore Sadwrn.


Mae'r galw mor fawr ag erioed, a'ch haelioni chi'n ddi-ball. Mae eich cyfraniadau dros y blynyddoedd diwethaf, ac yn enwedig adeg cyfyngiadau Covid, wedi bod yn amhrisiadwy.

Diolch yn fawr iawn i chi i gyd.

Y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol



O'r Wasg



Aeth bron i 2,000 o flynyddoedd heibio ers i'r grefydd Gristnogol ymledu gyntaf i dir Cymru. Wrth feddwl sut y treiddiodd dylanwad Cristnogaeth ar gynifer o agweddau o'n bodolaeth fel pobl, megis yr enwau lleoedd Beiblaidd a llannau'r seintiau sy'n britho'r wlad, heb sôn am y dylanwad ar ein hiaith, ein diwylliant a'n hunaniaeth, mae'n

anodd dirnad pam na welwyd un gyfrol o safon oedd yn cwmpasu hanes Cristnogaeth o'i dechreuad hyd heddiw. Ond bellach mae'r bwch wedi ei lenwi ers cyhoeddi *A history of Welsh Christianity* gan Wasg Prifysgol Cymru eleni.

Rwy'n prysuro i achub cam y dwsinau o haneswyr fu wrthi'n pori dros filoedd o archifau llychlyd am flynyddoedd lawer. Er eu llafur trwyadl a chydwybodol, roedd ffrwyth eu hymchwil wedi ei gyfyngu'n bennaf i gyfnodau, arweinwyr a sefydliadau eglwysig penodol, a'r cyhoeddiadau wedi'u targedu'n bennaf at gymuned o'u cyd-academyddion. Ymwybyddiaeth o absenoldeb cyfrol hygyrch i gynulleidfa ehangach fyddai'n ymddiddori yn y maes oedd yr ysgogiad i awduron y gyfrol hon fynd ati i olrhain hynt a helynt Cristnogaeth o gyfnod y Rhufeiniaid hyd at yr ymateb i Covid-19.

Wedi pori'n sydyn drwy'r gyfrol, gallaf gadarnhau bod y cyd-awduron – Barry J. Lewis, Madelene Gray, David Ceri Jones a D. Densil Morgan – wedi llwyddo'n rhyfeddol i guddio eu hysgolheictod wrth gyflwyno'r hanes mewn naratif sy'n gwbl hygyrch i leygwyr ei werthfawrogi. Gan fod y gyfrol yn cwmpasu tua 2,000 o flynyddoedd, mae'n naturiol ei bod yn darlunio cyfnodau o lanw a thrai yn hanes ymlyniad y Cymry i Gristnogaeth – yn enwedig felly yn ystod dyddiau cythryblus yn wleidyddol neu'n gymdeithasol, a thrwy gyfnodau o ryfeloedd a heintiau marwol. Er gwaethaf hynny, y prif ganfyddiad yw gallu'r eglwys i wynebu pob her ac addasu i'r amgylchiadau newydd. Hyn yw ein gobaieth ninnau mewn oes pan fo dyfodol y ffydd Gristnogol yng Nghymru yn ymddangos yn y fantol.

Coffi a Sgwrs
Canolfan y Tabernacl
Bob bore Mawrth
10.30-12.00
Efail Isaf
Croeso i bawb

Cylch Cadwgan

7.30 Nos Iau
10 Mawrth 2022

Delweddau o Cynan

Yr Athro Gerwyn Williams

Trefnir gan
Gymdeithas Gymraeg Llantrisant

Cyfarfod rhithiol fydd hwn.
Rhyddheir y ddolen Zoom ddechrau Mawrth.

HANES CYMRU:

Agweddau ar hanes crefydd yng Nghymru: Cristnogaeth a'r Cymru Fodern, 1760-2000

Cyfes o dair sgwrs yng nghwmni'r Athro D. Densil Morgan



£10 am 3 sesiwn

Nosweithiau Llun | 19:30 | Zoom
14.03 | 21.03 | 28.03
I gofrestru: mentercaerdydd.cymru/oedolion



Coleg yr Annibynwyr Cymraeg Cysiau'r Gwanwyn

Dirnad a datblygu doniau yn ein heglwys

Am 7 nos Lun 14 Mawrth
Beti-Wyn James, Caerfyrddin

Am 7 nos Fawrth 22 Mawrth
Alun Tudur, Caerdydd

Croeso cynnes i bawb

Manylion pellach a dolenni Zoom oddi wrth aled@colegyrannibynwyr.cymru

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org.

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos Iau at: 07710 237327 / 01443 225205 / gehpengwern@yahoo.co.uk